Rhif: WG38941

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad Technegol ar y Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2019

Dyddiad cyhoeddi: 18 Medi 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 30 Hydref 2019

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar y darpariaethau o ran peiriannau arian awtomatig a Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yng Nghymru. |
| **Sut i ymateb** | Gellir anfon ymatebion dros e-bost neu'n uniongyrchol i'r cyfeiriad isod:<br><br>Cangen Polisi Ardrethi Annomestig<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>E-bost: LGF1Consultations@llyw.cymru |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost i:<br><br>LGF1Consultations@llyw.cymru<br>Cangen Polisi Ardrethi Annomestig<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu’r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael eu ‘dileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Tabl Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad | **5** |
| **2** | Cyd-destun | **6** |
| **3** | Strwythur y Ddeddfwriaeth | **7** |
| **4** | Y Camau Nesaf | **8** |
| | Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad a Chwestiynau | **9** |

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Dyma ymgynghoriad technegol ar Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2019 (Gorchymyn Drafft 2019) (Atodiad A).

1.2 Mae Gorchymyn 2019 Drafft yn diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017 (SI 2017/1229) (Gorchymyn 2017) i sicrhau bod peiriannau arian awtomatig yn hereditamentau a eithrir ac felly nad ydynt yn gymwys ar gyfer Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach (SBRR).

1.3 Bwriedir y bydd Gorchymyn 2019 yn weithredol o 1 Ebrill 2020.

1.4 Rydym yn croesawu eich sylwadau ynglŷn â rhoi Gorchymyn 2019 Drafft ar waith yn ymarferol. Bydd yr ymgynghoriad technegol hwn ar agor am gyfnod o chwe wythnos a bydd yn cau ar 30 Hydref 2019.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae ardrethi annomestig yn berthnasol i'r rhan fwyaf o fathau o eiddo annomestig. Mae hyn yn cynnwys defnyddiau megis parcio, hawliau hysbysebu, mastiau telathrebu a pheiriannau arian awtomatig.

2.2 Mae Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach, fel y mae'n gweithredu yng Nghymru, yn eithrio rhai mathau o eiddo rhag bod yn gymwys am nad ydynt yn 'fusnesau bach' yn yr ystyr y bwriedir i'r rhyddhad ddarparu cymorth. Mae'r eithriadau yn cynnwys meysydd parcio, hawliau hysbysebu (e.e. hysbysfyrddau) a chyfarpar cyfathrebu electronig (ECA). Drwy eithrio cyfarpar cyfathrebu electronig, y nod yw cwmpasu amrywiaeth eang o gyfarpar gan gynnwys peiriannau arian awtomatig.

2.3 Mae darpariaethau i eithrio cyfarpar cyfathrebu electronig wedi'u hymgorffori yn y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach cyfredol, drwy Orchymyn 2017. Mae'r canllawiau ar gyfer Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach[1] sy'n cyd-fynd â Gorchymyn 2017 hefyd yn adlewyrchu'r ffaith y caiff cyfarpar cyfathrebu electronig ei eithrio. Roedd yr ymgynghoriad[2] ar y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach yn cyfeirio'n benodol at y ffaith nad yw peiriannau arian awtomatig yn gymwys i gael y rhyddhad.

2.4 Ym mis Ionawr 2018, gwnaeth asiant ardrethu gyflwyno her gyfreithiol yn erbyn Cyngor Sir Penfro ar ran talwr ardrethi peiriannau arian awtomatig, Cardtronics UK Ltd, am nad oedd wedi derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach ar gyfer ei beiriannau arian awtomatig yn y sir[3]. Dyfarnodd y llys o blaid Cardtronics UK Ltd ar y sail nad yw peiriannau arian awtomatig yn gyfarpar cyfathrebu electronig. Felly, byddai peiriannau arian awtomatig sy’n diwallu’r meini prawf perthnasol yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach lle y bo'n berthnasol o hyn ymlaen.

2.5 Nid cefnogi peiriannau arian awtomatig yw bwriad y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach oherwydd nid ydynt yn cael eu hystyried yn fusnesau bach. Felly, paratowyd Gorchymyn 2019 drafft i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol. Canlyniad y diwygiadau yw sicrhau nad yw eiddo annomestig a ddefnyddir ar gyfer peiriannau arian awtomatig yn unig yn elwa ar y Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach.

---

[1] Y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach parhaol i Gymru. 2019. https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/Y%20Cynllun%20Rhyddhad%20Ardrethi%20Busnesau%20Bach%20parahaol%20i%20Gymru.pdf

[2] Sicrhau toriad treth i fusnesau bach: cynllun rhyddhad ardrethi newydd ar gyfer busnesau bach yng Nghymru. 13 Rhagfyr 2017 https://llyw.cymru/sicrhau-toriad-treth-i-fusnesau-bach-cynllun-rhyddhad-ardrethi-newydd-ar-gyfer-busnesau-bach-yng?_ga=2.168330977.1765485338.1566892896-1071553442.1546944139

[3] *Cardtronics UK Limited v Cygnor Sir Penfro* [2018] EWHC 1167

## 3. STRWYTHUR Y DDEDDFWRIAETH

3.1 Mae Gorchymyn 2019 Drafft yn diwygio Gorchymyn 2017. Mae'r darpariaethau yn mewnosod y diffiniad canlynol o beiriant arian awtomatig yn erthygl 2:

"cyfleuster awtomatig sy'n darparu mynediad hunanwasanaeth i ystod o wasanaethau bancio".

3.2 Mae'r darpariaethau hefyd yn diwygio diffiniad "hereditament a eithrir" yn erthygl 2 Gorchymyn 2017 i gynnwys hereditament:

"a ddefnyddir ar gyfer peiriant arian awtomatig yn unig".

3.3 Mae'r darpariaethau hyn yn egluro sut y dylid delio â pheiriannau arian awtomatig o ran Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach. Yr effaith fydd cyflawni nod gwreiddiol y polisi sef sicrhau nad yw peiriant arian awtomatig yn gymwys i dderbyn y Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach.

| | |
|---|---|
| **C1** | **A oes unrhyw faterion yn codi o ran gweinyddu a gorfodi'r Gorchymyn Drafft?** |
| **C2** | **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Gorchymyn Drafft?** |

## 4. Y CAMAU NESAF

4.1 Bydd yr ymgynghoriad ar Orchymyn 2019 drafft ar agor am gyfnod o chwe wythnos. Ar ôl i'r ymgynghoriad technegol ddod i ben, caiff yr ymatebion eu hystyried a bydd unrhyw ddiwygiadau ychwanegol y gall fod eu hangen yn cael eu drafftio.

4.2 Yn amodol ar y sylwadau a gyflwynir yn ystod yr ymgynghoriad technegol, bwriedir i Orchymyn 2019 drafft ddod i rym o 1 Ebrill 2020.

## FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

| | |
|---|---|
| Eich enw: | |
| Sefydliad (os yw'n berthnasol): | |
| E-bost / Rhif ffôn: | |
| Eich cyfeiriad: | |

**Cwestiynau**

| |
|---|
| **1. A oes unrhyw faterion yn codi o ran gweinyddu a gorfodi'r Gorchymyn drafft?** |
| |
| **2. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am y Gorchymyn drafft?** |
| |

| |
|---|
| **3. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y Gorchymyn drafft yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**<br><br>**Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?** |
| |
| **4. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y Gorchymyn drafft gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** |
| |
| **5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:** |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma. ☐